# Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Ebrill 11eg 2022 yn Neuadd Y Rhiw am 7yh

**Presennol:** Y Cynghorwyr Wil Evans, Wenda Williams, Emlyn Jones, Geraint Jones ac RJ Williams
**Yn y gadair:** Y Cyng Nesta Roberts
**Roedd Wil Parry yn bresennol ar ddechrau y cyfarfod i drafod y gwasanaeth bws fflecsi sy'n cael ei redeg rhwng Trefor ac Aberdaron gan O Ddrws i Ddrws. Eglurodd fod y gwasanaeth ar gael trwy alwad ffôn neu ap ar ffonau symudol. Mae mannau codi wedi eu penodi mewn lleoliadau ar hyd ffyrdd yr ardal sy'n ei wneud yn wasanaeth hwylus i bawb. Mae ffî o £3 i ddefnyddio y gwasanaeth.**
**Eglurodd mai pwrpas y gwasanaeth ydi ceisio cael pobl i ddefnyddio llai ar eu ceir a rhagwelir y bydd yn cyfranu at leihau y broblem parcio ym mhentref Aberdaron.**
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u>:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Jaci Jones, Tim Rosa, Mari Evans, Gwenllian Hughes Jones a Dafydd Williams.
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>:** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 14eg o Fawrth 2022</u>:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
**a)Dwr yn casglu ger mynedfa Penrhos, Rhoshirwaun**: Bydd y gwaith o ail agor y ffosydd yn cael ei ychwanegu at raglen waith y Cyngor, a chyn gynted ag y bydd y gwaith wedi ei wneud bydd y lori jetio yn glanhau y draeniau.
**b)Ail baentio llinellau gwyn yn yr ardal:** Mae'r gwaith yma eisioes ar y rhestr waith.
**c)Tyllau yn lôn Mynydd Ystum:** Mae y gwaith o gau y tyllau wedi ei ychwanegu at y rhestr waith.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Derbyniwyd adroddiad yn dilyn archwiliad o'r fynwent gan y Cynghorwyr Wenda Williams ac Emlyn Jones. Mae un garreg yn rhydd sef carreg Griffith a Jane Jones, Caerau. Mae aelod o'r teulu eisioes wedi ei gwybyddu ond mae angen sgwennu llythyr swyddogol iddynt. Mae'r Cyng Wenda Williams am roi y cyfeiriad i'r clerc. Mae dwy garreg fedd yn gorwedd ar lawr sef un Ellis Thomas Bron Orion a William a Jane Jones, Anhegraig. Maent yn gorwedd yn flêr ac angen eu rhoi yn daclus ar y beddau. Penderfywnyd gofyn i Mike Tanner, Llechen Llŷn eu symud pan y bydd yn y fynwent nesaf. Mae peipan landar haearn bwrw yn rhydd ar yr eglwys ac angen ei thynnu i lawr, penderfynwyd gofyn i Terry Williams wneud hyn.
Nodwyd fod y to, ochr de yr adeilad mewn cyflwr gwael iawn ac angen sylw brys.
Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod rhwng pedwar aelod o'r Cyngor Cymuned ag Alys Lloyd Jones a Bleddyn Jones o Gyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar safle yr eglwys ar y 4ydd o Ebrill. Nid oedd ymateb cadarnhaol i bryder y Cyngor am gyflwr yr eglwys ond nid oedd hyn yn annisgwyl.
Mae posib ymgeisio am grantiau ac 'roedd Bleddyn y fodlon cefnogi cais am arian i wneud y gwaith paratoadol sef diweddaru adroddiad a wnaed gan benseiri Donald Insall yn 2016 a phenodi ymgynghorydd i ymgymeryd a'r dasg o gyflwyno ceisiadau am grantiau.
Cyn symud ymlaen rhaid penderfynu pwy sydd am arwain ar y cynllun - byddai y Cyngor yn gallu ad-hawlio TAW ar y costau os yn arwain, ac hefyd cyfrifoldeb y Cyngor ydi yr eglwys oherwydd mai enw y Cyngor sydd ar y lês. Mae rhai ffynhonellau grantiau yn agored i elusennau yn unig, fe fyddai Cyfeillion yr Eglwys Newydd yn gymwys i ymgeisio am y grantiau yma. Penderfynwyd mai y Cyngor fydd yn arwain ar y cynllun.
Trafodwyd iechyd a diogelwch ar y safle a phenderfynwyd fod angen cloi y brif giat a gwahardd pobl rhag croesi y gamfa gan eu cyfeirio i'r fynwent trwy y giat isaf. Fe fydd rhaid rhoi stanciau a rhaff i atal pobl rhag mynd at yr adeilad ynghyd ag arwydd i rybuddio pobl o'r perygl. Mae angen arwydd ar y giat a'r gamfa yn ogystal.
Penderfynwyd gofyn i Glyn Jones osod rhaff a stanciau, bydd y clerc yn archebu arwyddion. Bydd angen asesu risg cyn torri gwellt y fynwent gan roi sylw i gryfder y gwynt yn enwedig.

**iii)Canolfan Crud y Werin:** Derbyniwyd llythyr gan Bennaeth yr ysgol gyda atodiadau oedd yn cynnwys gohebiaeth rhyngthi ac aelodau Sefydliad y Merched.
Mae swyddog o adran eiddo Cyngor Gwynedd wedi bod mewn cysylltiad gyda y clerc ac wedi addo ymchwilio i gefndir y ganolfan a'r cyfansoddiad.
Penderfynwyd gwahodd y swyddog ynghyd a Phennaeth yr ysgol i gyfarfod gyda y Cyngor i drafod y sefyllfa.
Pwysleiswyd mai blaenoriaeth y Cyngor ydi sicrhau fod y brif fynedfa yn cael ei defnyddio hyd nes y bydd y cynlluniau i wneud gwellianau i'r ganolfan wedi eu gwireddu.
**iv)Meddygfa Rhydbach:** Derbyniwyd llythyr gan Marie Davies ar ran Jo Whitehead, Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr yn datgan ei bod yn hyderus fod Meddygfa Rhydbach yn darparu ystod o Wasanaethau Meddygol Cyffredinol i'r Bwrdd Iechyd dan gontract, ac mae yn hyderus fod y feddygfa yn cydymffurfio â gofynion y contract hwnnw.
Penderfynwyd ysgrifennu ati i ofyn iddi drefnu cyfarfod rhwng y Cyngor a staff y feddygfa.
**vi)Gwifrau BT:** Dim pellach i'w adrodd.
**vii)Parcio yn Aberdaron:** nid oes unrhyw ddatblygiadau pellach hyd yma.
**vii)Cynllun stafell snwcer Canolfan Deunant:** Mae llythyr ar ei ffordd ynghylch y cynllun.
**viii)Yr afon ym mhentref Aberdaron - ymateb CNC:** Mae'r Cyng Dafydd Williams a Wenda Williams wedi cyfarfod gyda Dylan Evans o CNC. Mae CNC am drwsio y wal sydd wedi disgyn o dan y Caban. Sylwyd fod yr afon yn erydu y tir dan y bont ac mae Mr Evans wedi addo trafod gyda Cyngor Gwynedd, ond nid oes mwy o wybodaeth wedi ei dderbyn hyd yma yn dilyn y trafodaethau. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd i holi.

**5) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Llythyr ynghylch cadw enwau lleoedd: Er gwybodaeth.
ii)Llythyr GwyrddNi: Mae Dafydd Rhys wedi ei benodi yn swyddog prosiect, mae yr aelodau wedi derbyn linc er mwyn cofrestru.
iii)Llythyr ynghylch Jiwbilî y frenhines: derbyniwyd y wybodaeth
iv)Holiadur anghenion tai gan Gyngor Gwynedd: Derbyniwyd y wybodaeth

**6) <u>Cynllunio</u>**

C22/0272/30/LL: Cais ar gyfer darparu podiau 'glamping' tymhorol gan gynnwys trosi adeilad allanol presennol i floc mwynderau - Penarfynydd, Y Rhiw: Dim gwrthwynebiad
C22/0313/30/DT: Dymchwel modurdy presennol a chodi ystafell gardd yn ei le ynghyd a trosi gofod tô'r annedd: Cae'r Eos, Aberdaron: Dim gwrthwynebiad

**7)Ariannol**

i)Ceisiadau am gyfraniad ariannol O Ddrws i Ddrws ac Amgueddfa Forwrol Llŷn:
Penderfynwyd rhoi cyfraniad o £100 i O Ddrws i Ddrws (gwnaed y cyfraniad yn unol a Deddf Llywodraeth Leol 2000).
ii)Adroddodd y clerc nad ydi o wedi derbyn rhybudd adnewyddu gan gwmni yswyriant Zurich a bod y gorchudd yn dod i ben ar y 23ain o Ebrill. Mae o wedi ysgrifennu at y cwmni ac yn aros am ymateb. Penderfynwyd y dylid talu am adnewyddu y polisi cyn gynted ag y derbynir y dogfennau.
iii)Archwiliad mewnol: Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd wneud archwiliad mewnol o gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2021-22.

**Taliadau**

Iwan Hughes: £186.09
HMRC (Paye): £46.60
Iwan Hughes: £35.98 (costau - inc, stampiau ac amleni)
Nesta Roberts: £12 (CCTV trwy S/O)
Archwilio Cymru: £235 (archwiliad ariannol 2020-22)
Ffioedd HSBC: £5
Neuadd Y Rhiw: £20

**Derbyniadau**

Sharon Williams: £150 (man cadw)
Llechen Llŷn: £75 (carreg fedd D.Marshallsay)

**8) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Derbyniwyd cwyn nad ydi y bws sydd yn cyrraedd pentref Aberdaron ar 10.30 ar nos Sadwrn yn rhedeg ers dechrau y pandemig a'i fod yn golled i'r pentref. Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am i'r gwasanaeth gael ei ail gychwyn.

ii)Nid ydi y gwaith o ail wynebu pont Bodernabwy wedi cymeryd lle eto. Penderfynwyd atgoffa yr Adran Priffyrdd.

iii)Derbyniwyd cwyn fod plant ysgolion Gwynedd wedi cael 'chicken nuggets', chips a 'baked beans' i ginio ar y dydd gwener cyn i'r ysgolion gau dros wyliau y Pasg. Yn arferol derbyniwyd cinio oedd yn cynnwys cig oen traddodiadol a chacen riwbob yn bwdin i ddathlu y Pasg. Penderfynwyd anfon at Adran Addysg Cyngor Gwynedd i fynegi siom mai dyma'r modd y mae plant ysgol Gwynedd yn cael dathlu y Pasg.

iv)Mae gwir angen ail wynebu y ffordd o Tŷ Croes Mawr i'r Groeslon, Y Rhiw.

vi)Derbyniwyd copi o lythyr gan Aneurin Mon Parry, swyddog gorfodaeth Cyngor G\wynedd yn egluro fod erlyniad llys yn mynd i gael ei weithredu yn erbyn perchennog y Wilds os na wnaiff gydymffurfio gyda gofynion yr adran gynllunio i gau y fynedfa o fewn 28 diwrnod i ddyddiad rhybudd. Hefyd, mae'r swyddog wedi gofyn i berchennog Pelydryn, Aberdaron i gynnwys yr estyniad di-ganiatad mewn cais cynllunio, mae wedi cael 7 diwrnod i ymateb.

vii)Derbyniwyd cwyn am fodurwyr yn torri y cyfyngiad '40' yn Rhoshirwaun, penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd osod peiriant mesur cyflymder ar y ffordd er mwyn casglu data.

viii)Mae 'cones' wedi eu gosod ar allt Y Rhiw a ger Rhiwlas, Y Rhiw gan fod pridd o'r cloddiau yn llithro i'r ffordd ers amser maith bellach. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd beth yw eu bwriad hir dymor.

ix)Mae postiau ac arwyddion yn cyfeirio pobl ar hyd y llwybr o lôn Fryndol i Nant y Gadwen wedi pydru ac o ganlyniad mae cerddwyr yn crwydro i bobman ar hyd y caeau. Penderfynwyd hysbysu yr Adran Llwybrau a gofyn am arwyddion newydd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor nos Lun, Mai 9fed yng Nghanolfan Deunant**